

Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Mawrth 26ain 2018 yn Neuadd y Dref Dinbych am 7yh.

Presennol: Cynghorwyr Roy Tickle (Cadeirydd), Catherine Jones (Is gadeirydd), Colin L Hughes, Marilyn Jones, Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Gwawr Cordiner Rhys Thomas, Glenn Swinger & Guto Lloyd-Davies; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Cyng Gaynor Morgan Rees, Philip Stevens, Lara Pritchard, Dyfrig Berry & Rob Parkes.

Arsylwi: Cyng Gwyneth Kensler.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod llawn y cyngor mis Mawrth.

185. Materion Brys - Dim

186. Datganiad Diddordeb Personol - Dim

187. Cytunwyd a nodwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar ddydd Llun 26ain o Chwefror 2018. Cyngorodd y Cyng Gwawr Cordiner ar eitem 180.2 y byddai Un Llais Cymru yn cael ei wahodd i gyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd clerch y dref yn trefnu hyn.

188. Materion yn codi - Dim

189. Adroddiad y Maer: Dosbarthwyd a nodwyd copi o benodiadau'r Maer. Dywedodd y Cyng Roy Tickle fod yr eira wedi achosi problemau presenoldeb. Mae'r Cyng Tickle wedi mwynhau'r digwyddiadau a fynychwyd yn llwyr ac mae'n drist bod ei flwyddyn faerol yn dod i ben. Dywedodd y Cyng Tickle hefyd wrth y cynghorwyr y byddai ei ddigwyddiad elusennol olaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener 30ain Mawrth, cwis yn y Llew Gwyn - croeso cynned i bawb fynychu.

190. Llythyrau, E-byst a Hysbysiadau: Cytunwyd bod yr eitemau o ohebiaeth ganlynol i'w nodi a'u gweithredu yn unol â hynny:

- a) Menter Iaith - Cystadleuaeth Dydd Gŵyl Dewi.
- b) Fferm wynt Coedwig Clocaenog - diweddariad.
- c) Ebost a dderbyniwyd gan Jacob Jones - cau Coleg Llandrillo.

191. Cynllunio -. Ni chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiad ar y ceisiau canlynol.

- a) 01/2018/0238
Bryn Euryn, Ffordd Rhuthun, Dinbych.
Codi estyniad i'r annedd a gosod balconi Juliette i'r drychiad cefn.
- b) 01/2018/0242
Ger Fferm y Graig, Ffordd y Graig, Dinbych.
Cadw llinell drydan uwchben.
- c) 01/2018/0155
17 Bryn Onnen, Dinbych.
Codi estyniad i'r annedd.

192. Cofnodion / Adroddiadau is-bwyllgorau'r cyngor. Nodwyd y canlynol.

a) Gweithgor cyfathrebu mewnol Cymraeg.

Bu cynghorwyr y dref yn trafod canfyddiadau'r gweithgor. Daeth y trafodaethau yn wresog ac ni chafnwyd unrhyw benderfyniad. Cynigiodd y Cyng Rhys Thomas fod y gweithgor yn cyfarfod eto i drafod ymhellach ac yna trafod â chlerc y dref cyn dod â'r diweddariad terfynol yn ôl i'r cyngor llawn.

b) Gweithgor TG.

Dywedodd y Cyng Alyn Ashworth ei fod bellach wedi cael mynediad llawn i'r wefan.

Diolchodd y Cyngorydd Rhys Thomas i'r gweithgor am eu gwaith caled.

c) Masnach Deg.

Dywedodd Clerc y Dref wrth y Cynghorwyr fod y digwyddiad yn Ysgol y Parc yn llwyddiant ysgubol a rhoddodd Ddinbych ar y map.

d) Canllawiau Taith Dinbych.

193. Adroddiadau gan Gynghorwyr Sir ar Faterion sy'n ymwneud a Dinbych yn unig:

Cyng Rhys Thomas - Dywedodd y Cyng Rhys Thomas fod popeth yr oedd yn dymuno ei ddiweddarau i'r Cyngorydd Tref arno eisoes ar yr agenda i'w drafod.

Cyng Glenn Swingler - Dywedodd y Cyng Glenn Swingler y bydd cyfarfod ar y 29ain gyda rheolwr rhanbarth Banc Barclays i drafod y cau. Mae Nathan Hughes yn dal i osgoi ei ddal gan yr Heddlu. Mae llawer o bresenoldeb yr Heddlu yn y dref.

Dywedodd y Cyng Gwawr Cordiner fod llawer o bobl leol yn ofidus oherwydd yr holl droseddau sydd ar hyn o bryd yn Ninbych.

194. Cyfrifon:

(1) Taliadau.

a) EON, goleuadau Nadolig 2017 (Rhif Siec 006410)	-	£213.77
--	---	---------

b) Zen internet 04/04/18 - 03/05/18 (Rhif Siec 006411)	-	£18.37
---	---	--------

c) M Lloyd, hamper Masnach deg, Ysgol y Parc (Rhif Siec 006412)	-	£22.84
--	---	--------

d) Gwyn Jones, Ffi Darlith Treftadaeth (Rhif Siec 006413)	-	£30.00
--	---	--------

(2) Unrhyw faterion ariannol eraill - Dim

195. Deddf diogelu data a Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol - Rhoddodd Clerc y Dref wybod bod rhagor o ganllawiau ar gael gan SLCC.

196. Panel Cydnabyddiaeth - Penderfyniad 44,46,48,49,50,51,52 a 53 ar gyfer 2017/18. Talu drwy'r gyflogres.

Cafodd y Penderfyniadau 44,46,48,49,50,51,52 a 53 eu derbyn i gyd gan Gynghorwyr y Dref. Rhoddodd Clerc y Dref ffurflen gais i bob cyngorydd ar gyfer penderfyniad 44.

Cytunodd y Cynghorwyr y dylai'r Cyng Roy Tickle ddyfarnu penderfyniad 47 a bydd clerc y dref yn cyhoeddi ffurflen gais maes o law.

Talu drwy'r gyflogres. Mae Clerc y Dref yn cynghori ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Chynulliad Cymru ac wedi derbyn cadarnhad na fyddai angen i'r taliadau fynd drwy'r gyflogres ar gyfer y flwyddyn ariannol 17/18.

- 197. Meysydd Parcio** - Dosbarthwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Mike Jones. Nid oedd angen unrhyw gamau pellach o'r manylion a dderbyniwyd. Roedd y Cynghorwyr yn dymuno i'r manylion gael eu trafod gyda grŵp Busnes Dinbych i weld beth oedd eu meddyliau ar ddiwrnod Parcio Am Ddim a thaliadau. Trafododd y Cynghorwyr Tref y posibilrwydd o gael y diwrnodau parcio am ddim ym mis Rhagfyr yn hytrach na digwyddiadau. Bydd Clerc y Dref yn cysylltu â'r grwpiau sydd ar hyn o bryd yn gofyn am ddiwrnodau parcio am ddim i roi gwybod am hyn. Bydd y Cyng Gwawr Cordiner hefyd yn trafod hyn gyda'r grŵp busnes. Bydd meysydd parcio yn cael eu hychwanegu at agenda Mai ar gyfer trafodaeth a chytundeb.
- 198. Coleg Llandrillo, Dinbych - cau Medi 18.**
Cafwyd trafodaethau ynglŷn â chyhoeddi cau Coleg Dinbych. Mae llawer o fyfyrwyr yn cael eu heffeithio gyda nifer o wahanol faterion yn cael eu codi.
Gofynnwyd i'r Cyng Gwyneth Kensler a oedd yn bresennol roi diweddariad i'r cynghorwyr Tref. Cynhaliwyd cyfarfod yn y Coleg gan uwch staff, AC, AS. A Chynghorwyr Sir.
Gofynnwyd i Glerc y Dref ysgrifennu at Mr Dafydd Evans yn mynegi pryderon y Cynghorau Tref ynghylch y cau - dim ymgynghori, diffyg cyfathrebu yn dilyn y cyhoeddiad, yr effeithiau a gaiff ar fyfyrwyr / mynychwyr, effaith ar staff, goblygiadau staff / busnes caffi, effaith ar yr economi ac adeilad gwag arall yn Ninbych. Gwahoddir Mr Dafydd Evans hefyd i fynychu cyfarfod nesaf y cyngor llawn i roi diweddariad i'r Cynghorwyr Tref yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau yn dilyn y diweddariad.
- 199. Ysbyty Dinbych - goblygiadau adroddiad tân.**
Rhoddodd y Cyng Rhys Thomas golwg gyffredinol o'r adroddiad tân a ddosbarthwyd i'r Cynghorwyr Sir ac ni chafodd ei nodi'n gyfrinachol. Roedd y Cyng Thomas yn pryderu am naws negyddol casgliad yr adroddiad. Hyd yn oed ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, mae'n cynghori, nid yw'n addas i'r pwrpas, sydd yn ysgubwr. Hefyd, gall y ddarpariaeth gofal iechyd yn Sir Ddinbych, darpariaeth yn y Gogledd a'r De, fod yn targedu Dinbych. Mae angen inni fod yn ymwybodol o hyn. Bydd Clerc y Dref yn dosbarthu copi o'r adroddiad unwaith y derbynnir cadarnhad nad yw Betsi Cadwaladr yn gyfrinachol.
- 200. CCB** - Cynghorodd Clerc y dref wrth y cynghorwyr fod y CCB eleni wedi'i drefnu ar gyfer 11eg o Fai. Hefyd bydd Dydd Sul Dinesig y Maer ar y 17eg o Fehefin.
- 201. Cylch Cyfeillgarwch Trefi Ceiriog - cynnig taith Iwerddon / Cymru.**
Cynghorodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle gynghorwyr y daith ac roedd eisiau gwybod a oedd unrhyw un, heblaw aelodau'r grŵp, yn dymuno mynychu. Gofynnodd y Cyng Gwawr Cordiner a allai unrhyw un sy'n mynychu o Ddinbych roi adborth.
- 202. Diweddariad tân gwyllt**
Dywedodd Clerc y Dref fod popeth mewn trefn ond roedd eisiau gwybod os odd y cynghorwyr eisiau yswiriant cyn belled â bod y digwyddiad wedi'i ganslo ee tywydd gwael. Byddai £4000 yn bosibl yn cael ei golli pe bai hynny'n wir. Gofynnodd y Cynghorwyr Tref i Glerc y Dref gael dyfynbrisiau ar gyfer canslo'r digwyddiad rhag ofn bod angen.
- 203. Presenoldeb mewn cyfarfodydd.** Dosbarthwyd manylion gyda'r cynghorwyr.

Terfynwyd y cyfarfod gan y cadeirydd am 8.55yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....